

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cyfarfod o'r Cyngor Llawn Hydref 2019

Full Council Meeting October 2019

Rhoddir rhybudd y cynhelir **Cyfarfod o'r Cyngor Llawn Mis Hydref** ar **Nos Lun, 21 Hydref 2019 yn Canolfan Y Fron** i gychwyn **7.30 yr hwyr** **ac felly fe'ch gwysir chwi i fynychu.**

Notice is hereby given that the **October full Council meeting** will be held on **Monday, 21 October 2019 at Canolfan Y Fron to commence 7:30 pm** and you are **summoned to appear**

Bydd y ceisiadau cynllunio ar gael i chwi am ugain munud cyn i'r cyfarfod gychwyn.
Planning applications will be available to view twenty minutes before the start.

Amgaeaf y canlynol i chwi
The following is enclosed -

- 1) Rhaglen Cyfarfod 21 Hydref 2019 - [Agenda for the Council Meeting 21 October 2019](#)
- 2) Cofnodion drafft Cyngor Llawn 16 Medi 2019 - [Draft Minutes of the Council Meeting 16 September 2019.](#)
- 3) Cofnodion drafft Pwyllgor Cyllid 2 Hydref 2019 - [Draft Minutes of the Finance Committee Meeting 2 October 2019.](#)
- 4) Cofnodion drafft Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau'r Cyngor 9 Hydref 2019 - [Draft Minutes of the Cemeteries & Assets Committee 9 October 2019.](#)

Cyfarfod / Meeting	Cyngor Llawn – Full Council
Dyddiad / Date	Nos Lun, 21 Hydref 2019 / Monday, 21 October 2019
Amser/ Time	7.30 yr hwyr / pm
Lleoliad/ Location	Canolfan y Fron

Rhaglen / Agenda

(noder y bydd Ann Llwyd Williams yn bresennol i gyfieithu'r trafodaethau / note that Ann Llwyd Williams will be in attendance to translate proceedings)

- 1 Croeso'r Cadeirydd – Cyng. Alun Wyn Jones / *Chairman's Welcome - Cllr Alun Wyn Jones*
- 2 Ymddiheuriadau ac Absenoldeb Aelodau / *Apologies from Members*
- 3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen / *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda.*
- 4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Cyngor Llawn a gynhaliwyd 16 Medi 2019 fel Rhai Cywir- *To Accept the Minutes of the Full Council meeting held 16 September 2019, as a true record .*
- 5 Materion yn Codi o'r Cofnodion – *Matters Arising from the Minutes*
 - a) **Llwybrau 36 Uwch Llifon - Carmel**
Cadarnhad fod Swyddog Tramwyo y Cyngor wedi derbyn y cwyn ac am archwilio y safle
 - b) **Ffoes Brynrhos Ditch**
Derbyniwyd y wybodaeth ganlynol gan Ian Morgan , Peiriannydd Ardal Arfon Cyngor Gwynedd

Ebost 27/9/2019

Rwyf wedi ymweld a'r safle fy hun wythnos diwethaf wrth fynychu cyfarfod yn Rhos Dyffryn. Mae gwely'r afon yn glir o unrhyw dyfiant sydd yn unol a'r cyfarwyddyd rhoddwyd i'r gweithlu. Yr unig waith pellach sydd ei angen yw clirio tyfiant sydd o fewn y grid ar geg y cylfat.

Gan ei'n bod yn glanhau'r grid pob pythefnos yn ystod tymor y gaeaf (Hydref i Ebrill) mi geith ei glirio fel rhan o'r gwaith rheolaidd hwnnw. Dwi ddim yn gweld unrhyw gyfiawnhad i drefnu ymweliad arall i'r safle.

c) **Jones Brothers - Cronfa Cymunedol / Community Fund Ffordd Osgoi Bontnewydd By-pass**

Diweddariad ar y noson gan y Rheolwr

d) **Gwasanaeth Bws Cyhoeddus i Cae Sarn, Y Groeslon / Public Transport to Cae Sarn, Groeslon –**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd

The following correspondence was received from GGwynedd Council's Integrated Transport Unit and Road Safety Manager

Cyfeiriaf at eich ebost isod ynglyn a gwasanaeth bws i Cae Sarn. Pan oedd cwmni Huw yn gweithredu y contract ac yn mynd yn amlach i Gae Sarn fe wnaeth nhw gysylltu a mi i ddweud nad oedd angen mynd yno mor aml gan nad oedd neb yn y safle bws. Gofynnwyd iddynt pa amseroedd oedd angen eu gadw a dyma sydd yn sail i'r amserlen presennol. Yn anffodus ar hyn o bryd ni fydd mwy o wasanaethau yn mynd i Gae Sarn. Rydym ar hyn o bryd yn adolygu Rhwydwaith Cludiant cyhoeddus Gwynedd a mi wnawn ystyried eich cais yn ystod y misoedd nesaf.

e) **Cae Chwarae Ysgol Bro Llifon / Bro Llifon School Playing Field**

Diweddariad ar y noson gan Cadeirydd y Cyngor.

f) **Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - Dyletswydd Cyngorau Chymuned a Thref o dan Adran 6 / Environment Wales Act 2016 - Community & Town Councils Duty under Section 6**

Yn ofynnol i'r Cyngor fel corff cyhoeddus i baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud i gydymffurfio a'r ddyletswydd i gynnal a chryfhau Bioamrywiaeth o fewn ein meysydd gwaith presennol. Rhaid i'r cynllun fod mewn lle erbyn diwedd 2019

Dywed cyflwyniad Un LLais (gweler ebost 5/9/19)

Y dyletswydd i Gynllunio

'Rhaid i awdurdod cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi beth ydyw yn cynnig gwneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd.' Nid oes rhaid i hwn fod yn gynllun arunig - gellir ei gynnwys mewn unrhyw gynllun arall sydd gennych chi yn gwneud, a dylent fod yn gymesur â'ch gweithgaredd a'ch swyddogaethau.

Gall gynnwys: • Sut y bydd bioamrywiaeth yn cael ei ymgorffori mewn polisiau a strategaethau; • Pa fentrau a gyflwynir i godi ymwybyddiaeth yn eich sefydliad; • Pa raglenni bioamrywiaeth ymarferol a gyflwynir; • Pa bartneriaethau fydd yn cael eu datblygu.

Dylai'r cynllun gael ei gynhyrchu cyn gynted â phosibl - ond gall alinio ag eraill cylchoedd cynllunio, gan gynnwys cynllunio WFG.

Y dyletswydd i Gyhoeddi

'Rhaid i awdurdod cyhoeddus, cyn diwedd 2019, a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd.' Unwaith eto, nid oes rhaid i hwn fod yn adroddiad arunig - gall cael ei gynnwys mewn unrhyw fformat adrodd.

Gallai gynnwys: • Nodi pa gamau a gymerwyd i ystyried bioamrywiaeth ar draws eich swyddogaethau; • Nodi camau ymarferol a gymerwyd ar lawr gwlad; • Mae amlinellu unrhyw fentrau partneriaeth ar fioamrywiaeth wedi'u sefydlu a'r hyn y maent wedi'i gyflawni; • Beth rydych chi wedi'i wneud i helpu i godi ymwybyddiaeth a chyfleu pwysigrwydd bioamrywiaeth. Rhaid adolygu eich cynllun a6 ar ôl cyhoeddi'r adroddiad a6.

One Voice Wales presentation (email 5/9/19)

The duty to Plan 'A public authority must prepare and publish a plan setting out what it proposes to do to comply with the duty.' This need not be a standalone plan - it can be included in any other plan you are making, and should be proportionate to your activity and functions. It can include: • How biodiversity will be incorporated into policies and strategies; • What initiatives will be introduced to raise awareness within your organisation; • What practical biodiversity programmes will be introduced; • What partnerships will be developed. The plan should be produced as soon as possible - but it can align with other planning cycles, including WFG planning.

The duty to Report

'A public authority must, before the end of 2019, and before the end of every third year after 2019, publish a report on what it has done to comply with the duty.' Again, this need not be a standalone report – it can be included in any reporting format.

It could include: • Identifying what steps have been taken to consider biodiversity in across your functions; • Identifying practical actions taken on the ground; • Outlining any partnership initiatives on biodiversity have been set up and what they have achieved; • What you have done to help raise awareness of and communicate the importance of biodiversity.

Your s6 plan must be reviewed after publication of the s6 report.

GWEITHREDU – sefydlu gweithgor fel bod y Cyngor yn cyhoeddi cynllun erbyn diwedd 2019

ACTION REQUIRED – to establish a working Group so that the Council can publish its report by the end of 2019

-
- 6** Derbyn Cofnodion y Gweithgor Ymgysylltu a gynhaliwyd 25 Medi 2019 fel Rhai Cywir- *To Accept the Minutes of the Consultation Working Group held 25 September 2019, as a true record .*
- 7** Materion yn Codi o'r Cofnodion – *Matters Arising from*
-
- 8** Derbyn Cofnodion y Pwyllgor Cyllid y Cyngor a gynhaliwyd 2 Hydref 2019 fel Rhai Cywir- *To Accept the Minutes of the Finance Committee Group held 2 October 2019, as a true record .*
- 9** Materion yn Codi o'r Cofnodion – *Matters Arising from the Minutes*
-
- 10** Derbyn Cofnodion y Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau y Cyngor a gynhaliwyd 9 Hydref 2019 fel Rhai Cywir- *To Accept the Minutes of the Cemeteries & Assets Cmmittee held 9 October 2019, as a true record .*
- 11** Materion yn Codi o'r Cofnodion – *Matters Arising from the Minutes*
-

12 Archwilio Cyfrifon 2018-19 / Audit of Accounts 2018-19 Datganiad Blynyddol - Cyfrifon Terfynol 2017-18 **Annual Return (Financial End of Year Statement)**

Ystyried yr adroddiad a gweithredu fel bo'r aneg / **To consider the Auditors Report and act accordingly**

GWEITHREDU – ystyried yr adroddiad a gweithredu fel bo'r angen
ACTION REQUIRED – to consider the report & act accordingly

13 Materion Yn Codi Gan Aelodau – **Matters Arising From Members**

Cyng. Robert Jones - Llwybrau Tramwyo y Gymuned
Cyng. Alun Wyn Jones – torri tyfiant beddau Bryn'rodyn
Cyng. Eddie Willcox Coleg wall
Cyng. Eddie Willcox Council policy for playing fields

Gohebiaeth / Communication

14 Llywodraeth Cymru – Cymru yn 2040 - Ymgynghoriad - Fframwaith Datblygu Cenedlaethol **Welsh Government – Wales in 2040 - National Development Framework**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gynllun newydd ar gyfer datblygu yng Nghymru. Nid yw'r cynllun yn ymwneud â materion lleol – beth sy'n digwydd yn eich cymdogaeth – yn hytrach, mae'n edrych yn ehangach ar anghenion Cymru gyfan er mwyn iddi fod yn llwyddiannus nawr ac yn y dyfodol.

Bydd y Fframwaith yn helpu i sicrhau lleoedd cynaliadwy ledled Cymru erbyn 2040, drwy gefnogi dulliau cadarnhaol o greu lleoedd a sicrhau bod ein dewisiadau gofodol yn cyfeirio datblygiad i'r lleoedd iawn, yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, yn creu ac yn cynnal cymunedau hygyrch ac iach, yn gwarchod ein hamgylchedd ac yn cefnogi ffyniant i bawb.

Dyddiad Cau –Tachwedd 1af, 2019).

<https://gov.wales/draft-national-development-framework>

The Welsh Government is working on a new plan for development in Wales. The plan isn't about local matters – things going on in your neighbourhood – but rather takes a broader look at what Wales, as a whole, needs in order to be successful now and in the future.

The NDF will help deliver sustainable places across Wales by 2040, by supporting placemaking and ensuring our choices direct development to the right places, making the best use of resources, creating and sustaining accessible healthy communities, protecting our environment and supporting prosperity for all.

Welsh Government – National Development Framework (Closing Date – 1 st November, 2019).

<https://gov.wales/draft-national-development-framework>

GWEITHREDU – derbyn y wybodaeth a cynnig sylwadau
ACTION REQUIRED – to accept the communication and offer comments

15 Grwp Cynefin Gohebiaeth gan Ben Gregory – 2/10/2019

*Atodaf wahoddiad a'r cynllun gweithredu ar gyfer y cyfarfod ar **Hydref 23, 7.30, yn Neuadd Goffa Penygroes**, i drafod Strategaeth Bro Lleu. Bwriad y cyfarfod yw diweddarau'r cynllun gweithredu, yn ogystal ag ychwanegu eitemau a chymryd cyfrifoldeb am rai o'r gweithredoedd. Erbyn diwedd y cyfarfod byddwn wedi derbyn y cynllun terfynol. Bydd y cynllun yma ar gael i grwpiau gefnogi eu gwaith, ac helpu i gydlynu gwaith ar draws y gwahanol feysydd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, cysylltwch â fi.*

*Please find attached an invitation and the action plan for the meeting on **October 23, 7.30, Neuadd Goffa Penygroes**, to discuss the Bro Lleu Strategy. The intention of the meeting is to update the action plan, including adding items and taking responsibility for some of the actions. By the end of the meeting we will have accepted the finished plan. It will then be available for groups to support their work, and to help co-ordinate work across the different themes. If you have any questions or comments, please contact me.*

GWEITHREDU – derbyn y wybodaeth ac ystyried derbyn y gwahoddiad
ACTION REQUIRED – to accept the communication and consider accepting the invitation

16 Parc Cenedlaethol Eryri - Cysylltu Comin a Chymuned Uwch Gwyrfaei **Snowdonia National Park – Uwch Gwyrfaei Common and Community Links Project**

Gohebiaeth trwy e-bost 3 Hydref 2019

Dwi'n siŵr eich bod wedi gweld a chlywed y gwrthwynebiad sydd wedi bod yn erbyn yr ail grid arfaethedig yn y Fron gan gymdeithas porwyr Uwch Gwyrfaei? Mae'r gymdeithas porwyr yn awyddus i barhau i roi'r ail rid yn Y Fron oherwydd hyn bleidleisiodd trigolion y Fron yn 2016, gyda phleidlais wedi cynnal gan Gyngor Cymuned Llandwrog.

Oherwydd pa mor agos yw'r grid arfaethedig i dai bydd rhaid rhoi asesydd sŵn ac asesydd 'vibration' wrth y tai i sicrhau bod y grid ddim am amharu ar lesiant y trigolion lleol. Mae rhaid i adran 'environmental health' y cyngor ddilyn canllawiau'r World Health Organisation i neud siŵr bod ddim anhegrwydd i bobl leol. Rydem yn llwyr cefnogi hyn. Mae hyn am gostio £4,250.

Oherwydd y costau sydd ynghlwm ac yr ansicrwydd 100% o gael cais Cynllunio wedi talu am yr asesiadau, hoffer y gymdeithas porwyr gynnal pleidlais arall yn y Fron er mwyn sicrhau bod trigolion y Fron dal eisiau'r Ail rid.

Y cynllun yw cynnal pleidlais drwy'r post. Bydd pob tŷ yn derbyn un llythyr wedi yw rhifo a'r papur yn 'headed paper' Parc Eryri gyda watermark i sicrhau nac dim ond un papur gall cael yw cofrestru o bob tŷ. Byddaf yn rhoi terfyn amser o tua pythefnos i bawb yrru'r llythyr yn ôl ar amlen rhabost yma i swyddfa'r Parc.

Y cynllun wedyn yw agor y pleidleisiau yng Nghwmni cyfreithiwr y Parc, aelod o gymdeithas porwyr Uwch Gwyrfaei ac aelod o Gyngor Cymuned Llandwrog os bydd yn bosib?

Oes gan y chi unrhyw sylwadau ar hyn? Rwyf yn anelu cael draft cyntaf o lythyr i'r trigolion wedi yw cwblhau erbyn dydd Llun y 7fed o Hydref.

GWEITHREDU – derbyn y wybodaeth ac cynnig ymateb
ACTION REQUIRED – to accept the communication and consider our response

17 Un Llais Cymru / One Voice Wales **Cynhadledd Blynyddol 2019 / Annual Conference 2019**

Cynhadledd Un Llais Cymru – Pontrhydfendigaid Dydd Sadwrn 5 Hydref 2019
Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor Un Llais Cymru – Pwllheli 25 Medi 2019

Cyflwyniad gan Mel ab Owen ar ddyfodol Cynghorau Tref a Chymuned

Sefydlwyd Panel Adolygu Annibynnol gan Mark Drakeford fel rhan o waith i ddiwygio llywodraeth leol yn ehangach. Yn 2018 mae'r panel hwn wedi bod yn casglu tystiolaeth am y sector ac yn ceisio egluro:

- Beth yw Cynghorau Cymuned a Thref: gan gynnwys mynd i'r afael â'r cwestiynau mawr megis a ddylai Cynghorau Cymuned a Thref fodoli, sylw a mathau o Gynghorau Cymuned a Thref.
- Beth mae Cynghorau Cymuned a Thref yn ei wneud: edrych ar agweddau ar y rôl fel cyflenwi lleol, llais lleol a hunaniaeth ac ymgysylltu.
- Sut mae Cynghorau Cymuned a Thref yn ei wneud: archwilio gallu a gallu.
- Sut mae Cynghorau Cymuned a Thref yn cael eu dwyn i gyfrif: ystyried atebolrwydd democrataidd.

Dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd 3 o'r awgrymiadau yn ymddangos mewn deddfwriaeth a gyflwynir cyn bo hir.

Ar hyn o bryd mae'r ddeddfwriaeth honno'n cael ei harafu oherwydd bod cymaint o ddeddfwriaeth BREXIT yn mynd trwy'r Cynulliad.

Yn wreiddiol, fe'i haddawyd ym mis Mehefin, newidiodd hynny erbyn hyn i'r Hydref.

Adroddwyd fod 47 argymhelliad a wnaethpwyd gan Panel Annibynnol ar Ddyfodol Cynghorau Tref a Chymuned wedi dod lawr i 3 sef-

- 1) **Adroddiad Blynyddol**
- 2) **Pwerau Grymusoedd**
- 3) **Hyfforddiant i Aelodau**

Adroddiad Blynyddol

Rhaid ystyried -

Pa fath o adroddiad?

Sut fydd yn cael ei ddsbarthu?

Beth fydd y gost?

Pwerau Grymusoedd i Gynghorau (General Power of Competence)

Grymoedd Cymhwysedd.

i. Os yw Cyngor yn dymuno mabwysiadu'r grym cymhwysedd cyffredinol, rhaid bod dau draean o'i aelodau wedi cael eu hethol yn hytrach na'u cyfethol.

ii. Hefyd, rhaid bod ganddo Glerc sy'n meddu ar gymwysterau addas h.y. Cilca, Tystysgrif Addysg Uwch mewn Polisi Lleol neu Dystysgrif Addysg Uwch mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol.

Mae'r grym hwn yn caniatáu'r cyngor i wneud unrhyw beth y gall unigolyn ei wneud onid yw wedi cael ei gyfyngu'n benodol gan y grym cyffredinol neu gan ddeddfwriaeth arall.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

i. Defnyddio'r grym i osod y sail gyfreithiol ar gyfer derbyn gwasanaethau ychwanegol gan gynnwys rhai na all prif Gyngor eu hariannu mwyach. Er enghraifft, gallai ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau ieuenticid a defnyddio'r grymoedd cymhwysedd i osgoi'r cyfyngiadau ar wariant a orfodir gan A137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i ariannu'r prosiect.

ii. Cefnogi prosiectau yn cynnwys sefydliadau neu eiddo masnachol sydd er budd cyffredinol i'r gymuned y tu hwnt i gwmpas A137.

Hyfforddiant Gorfodol i bob Cynghorydd.

i) Pa fath o hyfforddiant? Mae'r rhan fwyaf o Gynghorau Unedol yn cynnig hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Gynghorau Cymuned ar hyn o bryd. Mae datganiad y Llywodraeth yn awgrymu mwy.

ii) Maes llafur posib:

Cod Ymddygiad

Y Cyngor

Cyllid Cynghorau Lleol

iii) Costau

iv) Cyfleoedd i Un Llais Cymru.

Nodwyd yn y Gynhadledd gan Hannah Blythyn Y Dirprwy Weinidog Tai Llywodaeth Leol
Yn gefnogol iawn o waith Cyngorau Cmuned
Am ei gwarchod.
Am ei gwld yn dryloyw , yn agored ac yn gynaliadwy
Edrych ar fwrsariaeth i Glercod trwy Un Llais
Anhen gwella cysylltiadau gyda'r gymuned. Ymgysylltu yn gyson.
Clercod gyda cymhwyster

Deallt Lleoedd Cymru - Mapio

Cafwyd gyflwyniad gan Elinor Shepley – Swyddog Prosiect Deall Lleoedyng Nghymru
Mae tystiolaeth ar sail lle yn hanfodol, i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau ac i ddeall sut mae lleoedd yn newid dros amser. Mae hyn wedi denu ffocws cryfach mewn gwaith diweddar er mwyn deall llesiant ar lefel cymunedau'n well.
Mae creu darlun o le a gallu gwahaniaethu ei nodweddion rhag nodweddion lleoedd eraill yn dod â'i heriau. Yn gyntaf, sut orau mae diffinio ein lleoedd mewn modd cyson, ar yr un pryd â darparu gwybodaeth ar sail ddaearyddol y bydd defnyddwyr gwasanaethau (a dinasyddion) yn eu hadnabod fel trefi, cymunedau, ac ati. Yn ail, her y data meintiol dibynadwy cyfyngedig sydd ar gael ar lefel islaw awdurdodau lleol. Rydym wedi treulio'r 18 mis diwethaf yn edrych ar beth allai fod yn bosibl, gan gynnwys datblygu offeryn peilot llwyddiannus fel 'prawf o'r cysyniad' yn gynnar yn 2018.
IO ran diffinio 'lle', rydym wedi defnyddio daearyddiaeth Ardaloedd Adeiledig y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a phenderfynu ar boblogaeth o 2,000 neu fwy yn ôl Cyfrifiad 2011. Ar gyfer y fersiwn beta, rydym wedi cynnwys set gychwynol o ddata am le. Lle bu'n bosibl rydym wedi ceisio sicrhau cysondeb â'r data y gwyddom eich bod chi a chydweithwyr yn ei ddefnyddio ar lefelau daearyddiaeth eraill. Ar gyfer ein trefi mwy o faint a'n dinasoedd, rydym wedi ychwanegu'r gallu i weld y data am is-ardaloedd (LSOAs). Gall defnyddwyr ddewis gweld data am le sy'n gymharydd hefyd.
Mae gennym drefniadau cyffrous ar y gweill ar gyfer yr offeryn, gyda ffocws hirdymor ar ei botensial i gefnogi deall y data sy'n deillio i Gyfrifiad 2021. Yn y tymor byr, byddem yn croesawu'ch mewnbyn a'ch cyngor yn fawr iawn wrth i ni geisio ychwanegu rhagor o ddata ac estyn ei ymarferoldeb.

GWEITHREDU – derbyn y wybodaeth
ACTION REQUIRED – to accept the communication

18 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

Ceisiadau Hydref 2019 - Applications for October 2019

Cais Rhif / Application Number - **C19/0928/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **Y Garreg Fawr, Y Fron. LL54 7BT**
Bwriad / Proposal - **Estyniad unlaer ochr / Single storey side extension.**

Cais Rhif / Application Number - **C19/0839/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **Hen Ysgol Carmel. LL54 7AA**
Bwriad / Proposal - **Cais ol -weithredol am newid defnydd i annedd preswyl/ Retrospective application for the change of use of former school to residential dwelling extension.**

GWEITHREDU – cynnig sylwadau, gwrthod neu caniatu y cais/ceisiadau
ACTION REQUIRED – to offer comments, reject or approve the development/s

Materion Ariannol / Financial Matters

19 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Medi 2019 – Income Received September 2019

Manylion / Details	Cyfanswm
Ffioedd Claddu – Burial Fees	
Llog Banc	

20 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved by Council

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount excluding VAT	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Rheolwr – Hydref 2019 – Managers Salary October 2019	£566.01		Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Hydref 2019 – Income Tax October 2019	£148.20		Uniongyrchol/Direct
HMRC – Yswiriant Gwladol y Rheolwr Hydref/ October 2019	£2.76		Uniongyrchol/Direct
NEST – Pensiwn y Rheolwr – Cyfraniad y Cyngor Hydref/October 2019	£74.10		Uniongyrchol/Direct
Lwfans y Rheolwr – Hydref 2019 – Managers Allowance October 2019	£24.00		Uniongyrchol/Direct
Trwydded Office 365 / Office 365 Licence	£49.99	£59.99	
Antur Fachwen / Fainc Cae Chwarae Y Fron Playing Field			

21 Cyfarfodydd Nesaf / Next Meetings

Cyfarfod / Meeting – **Cyfarfod o'r Cyngor Llawn Tachwedd / November Full Council**

Dyddiad / Date - Dydd Llun 18 Tachwedd 2019 / [Monday 18 November 2019](#)

Amser / Time - 7.30 yr hwyr / pm

Lleoliad / Venue Neuadd – Neuadd Y Groeslon

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**

Pwrpas / Purpose – Asesiad Risg / Risk Assessment

Dyddiad / Date - i'w gadarnhau / to be confirmed

Amser / Time - i'w gadarnhau / to be confirmed

Lleoliad / Venue Neuadd – i'w gadarnhau / to be confirmed

22 Materion i'w codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn – 18 Tachwedd 2019. [Matters to be raised by members in the next meeting - 18 Tachwedd 2019](#)

Diwedd - end